Tai Wales & West

Crynodeb o'r Weithdrefn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Yn Nhai Wales & West, rydym wedi datblygu Polisi a Gweithdrefn er mwyn cynorthwyo a chyfrannu at y ffordd y byddwn yn rhoi sylw i adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Anogwn pobl i adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac er ein bod yn ceisio teilwra ein dull gweithredu er mwyn cydnabod amgylchiadau'r sefyllfa, ac anghenion yr unigolion, rydym wedi datblygu fframwaith er mwyn cynorthwyo dull gweithredu cyson.

O wneud cais, gellir cael fersiwn llawn o'r Weithdrefn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Fe'i chyhoeddir ar wefan Wales & West hefyd.

Adrodd am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Rydym yn hapus i gael adroddiadau ar lafar, yn ysgrifenedig neu'n electronig. Byddem yn derbyn adroddiadau gan yr unigolyn sy'n cael eu heffeithio hefyd, neu gan rywun ar eu rhan. Pan fyddwch yn adrodd wrthym am broblem, byddwn yn casglu cymaint o wybodaeth ag y byddwch yn gallu ei darparu er mwyn ein helpu i ddeall y broblem, ac er mwyn ein helpu i benderfynu ar y camau i'w cymryd nesaf.

Mae asiantaethau eraill, megis yr Heddlu neu'r awdurdod lleol, yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd, ac efallai y gofynnir i chi adrodd wrthyn nhw am y broblem hefyd.

Ymchwilio

Byddwn yn gofyn i chi am fanylion llawn yr hyn sy'n digwydd, a'r effaith y mae'r broblem yn ei chael arnoch chi, a difrifoldeb yr effaith hon sy'n llywio ein hymateb.

Ceir achosion pan fyddwn yn ymateb trwy gynnig cyngor yn unig ar ôl cael eich adroddiad. Fodd bynnag, yn ôl y gofyn, byddwn yn cytuno ar gynllun gweithredu gyda chi, a fydd yn cynnwys sut yr hoffech i ni gadw mewn cysylltiad, a pha wybodaeth y bydd angen i chi ei chofnodi efallai. Byddwn yn sicrhau hefyd ein bod yn eich holi am unrhyw amgylchiadau y byddwch yn dymuno i ni eu hystyried efallai pan fyddwn yn cyfathrebu neu'n cyfarfod gyda chi, megis y ffaith bod angen i chi gael fersiwn print mawr neu fach o ddogfennaeth, yr angen i wneud apwyntiadau penodol neu unrhyw addasiad arall i'n ffordd arferol o weithio.

Rheoli Achosion

Mae gennym ystod eang o ddulliau ac offerynnau er mwyn ein helpu i ddatrys y materion. Mae'r rhain yn amrywio o'ch helpu i siarad gyda'ch cymdogion, neu i fanteisio ar gymorth gan un o'n staff arbenigol ni, neu asiantaeth allanol. Rydym wedi datblygu amrediad o weithdrefnau er mwyn helpu gyda materion penodol megis troseddau casineb neu gam-drin domestig. Gallwn ddefnyddio amrediad o ddulliau ffurfiol a chyfreithiol hefyd er mwyn mynd i'r afael â'r materion y gallech fod yn eu profi.

Monitro ac Adolygu

Byddwn yn sicrhau ein bod yn adolygu eich achos yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa a'r camau a gymrwyd er mwyn gweld yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a beth arall y byddai modd ei wneud. Byddwn yn sicrhau ein bod wedi eich helpu i fanteisio ar y cymorth cywir, os bydd ei angen, ac a oes unrhyw rai o'ch amgylchiadau wedi newid, y gallent effeithio ar y ffordd yr ydym yn rheoli eich achos.

Os hoffech wneud adroddiad am YG, ffoniwch 0800 052 2526. Gellir gweld manylion cyswllt pellach trwy droi at wefan Tai Wales & West Housing: https://www.wwha.co.uk/en/contact/